# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Meini Bach (Bon-y-Maen)**

**Ysgol Gymraeg Y Cwm**
**Jersey Road Bon-y-Maen**
**Abertawe**
**SA1 7DL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Meini Bach (Bon-y-Maen)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Ti a Fi a Cylch Meithrin Meini Bach |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Cânt eu cefnogi yn eu dewisiadau ac mae'r staff yn rhyngweithio'n gyson â nhw. Mae'r plant yn cyd-chwarae ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r oedolion o'u cwmpas. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol i roi'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Maent yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau bob amser yn cael eu dilyn. Mae gan y staff gydberthynas gadarnhaol a gofalgar â'r plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn darparu lle chwarae dan do da ac yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored. Mae adnoddau, teganau a chyfarpar ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchedd wedi'i ddatblygu'n llawn i ddiwallu anghenion a diddordebau'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth sy'n datblygu ar gyfer Cylch Meithrin Meini Bach. Mae ganddynt brosesau priodol ar waith i adolygu dogfennau a pholisïau a'u diweddaru pan fo angen. Maent yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda'r plant ac yn cynnig hyfforddiant rheolaidd. Fodd bynnag, mae achlysuron pan nad oes nifer digonol o staff i gyflawni'r holl ddyletswyddau'n effeithlon a diogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu'r rhieni yn briodol.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, maent yn gallu penderfynu a ydynt am chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu hystyried, gallant archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac maent yn hyderus i symud o gwmpas a chwarae fel y mynnant.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Mae trefn y bore yn gyson ac yn gadarnhaol sy'n golygu bod bron pob plentyn yn ymdopi'n dda wrth wahanu. Er enghraifft, dim ond ychydig iawn o'r plant oedd am eistedd ar y carped cyn chwarae. Cafodd hyn ei barchu a rhoddwyd amser a sylw iddynt tan eu bod yn barod i ymuno â'r gweddill. Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Maent yn dynwared natur ddigynnwrf yr oedolion sy'n gofalu amdanynt ac yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd. Mae'r plant yn mynd at yr oedolion yn hapus i rannu eu hoff bethau a'u cas bethau, ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn yn y lleoliad.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda, mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd bron pob un o'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, gan rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae â'r teganau ceir gyda'i gilydd, gan gymryd eu tro i wthio eu ceir ar hyd y trac ac annog ei gilydd i groesi'r llinell derfyn. Mae hoffter amlwg rhwng y plant a'r staff, ac mae'r plant yn mynd at y staff am sylw a sicrwydd drwy gydol eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored ac yn gallu ymlacio a chael cyfnodau tawel hefyd. Maent yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel. Er enghraifft, maent yn mwynhau canu gyda'r staff ac yn dangos mwynhad wrth iddynt gofio symudiadau'r caneuon. Mae'r plant yn datblygu eu gallu i ganolbwyntio ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn ymgymryd â'r gweithgareddau. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn dyfalbarhau i wisgo'r doliau, a phan ymunodd ffrind ag ef, gwnaethant rannu'r dillad a helpu ei gilydd pan oedd angen.

Mae'r plant yn cael eu trochi'n llwyr yn yr iaith Gymraeg. Maent yn clywed yr iaith yn gyson ac mae'r plant di-Gymraeg yn deall ac weithiau'n ceisio ateb yn Gymraeg. Mae'r ffordd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo yn gryfder mawr i'r lleoliad. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain, ac maent yn gyfarwydd â'r arferion. Fodd bynnag, mae llawer o gyfleoedd yn cael eu colli lle y gallai'r plant fod yn gwneud tasgau arferol eu hunain.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi arferion glanhau effeithiol nac arferion hylendid da ar waith. Er enghraifft, nid yw'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol â'r polisi wrth newid cewynnau neu weini byrbrydau. Nid yw'r staff yn dilyn y protocolau golchi dwylo cywir ac nid ydynt yn rhoi tywelion dwylo ar wahân i'r plant er mwyn atal achosion o groesheintio. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cynnal y cymarebau cywir rhwng y staff a'r plant bob amser. Fodd bynnag, ar adegau penodol o'r wythnos, gall hyn olygu bod grwpiau o blant yn gorfod mynd i'r toiled ar yr un pryd, sy'n effeithio ar breifatrwydd ac urddas y plant. Mae'r staff yn cefnogi ac yn annog y plant i gael awyr iach ac yn darparu dewisiadau byrbryd iach. Mae systemau priodol ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau a damweiniau, yn ogystal â manylion a llofnodion y rhieni. Mae'r hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae'r polisi diogelwch yn bodloni'r gofynion, ac mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ac yn hyderus ynghylch senarios diogelu posibl.

Mae'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant ac yn creu awyrgylch hamddenol ac ymlaciol. Maent yn ymatebol ac yn garedig â'r plant, ac yn rhoi cysur iddynt pan fo angen. Er enghraifft, roedd un o'r plant yn drist am fod ei laeth wedi disgyn i'r llawr, ac aeth y staff ato yn syth i'w gysuro ac estyn rhagor o laeth iddo. Mae'r staff yn rheoli ymddygiadau'r plant mewn ffordd gadarnhaol ac yn dilyn polisi'r lleoliad yn effeithiol. Maent wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, defnyddio technegau tynnu sylw ac atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn canmol y plant am fod yn garedig neu am rannu adnoddau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a hunan-barch y plant.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda yn y gweithgareddau chwarae sy'n cael eu dewis ganddynt. Gwelsom y staff yn darllen straeon i blant unigol a grwpiau bach, yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan ddangos iddynt sut i ddefnyddio'r adnoddau, ac yn siarad â'r plant am eu syniadau. Mae'r staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol, ac yn rhoi awgrymiadau am gymorth gan asiantaethau allanol ar waith yn gyson. Gwnaethant fynychu hyfforddiant ar y Cwricwlwm i Gymru yn ddiweddar er mwyn eu helpu i gynllunio ar gyfer anghenion a diddordebau unigol y plant, ac maent yn frwdfrydig i ymgorffori'r hyfforddiant hwn yn llawn yn eu hymarfer. Maent yn cwblhau arsylwadau ar ddysgu a datblygiad y plant ac mae cofnodion cynnydd ar waith, sy’n galluogi'r staff i gynllunio ar gyfer camau nesaf dysgu’r plant. Mae'r staff eisoes wedi dechrau gweithio ar gynlluniau i wella eu hasesiad ymhellach yn unol â'r fframweithiau presennol.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau boddhaol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r staff yn cloi pob un o'r giatiau allanol ac mae'n rhaid i bob ymwelydd gofrestru wrth gyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân boddhaol. Caiff yr asesiadau hyn eu hadolygu a gweithredir arnynt. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad mewn argyfwng, ac mae'r broses o gadw cofnodion o ymarferion tân wrthi'n cael ei hadolygu. Maent yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar y safle ac mae copïau o bob adroddiad ar wiriadau diogelwch ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r plant yn symud yn hyderus o amgylch yr ystafell chwarae, gan chwarae ar y llawr teils, yr ardal garped ac ar y byrddau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymwybodol o'r heriau o ran lleoliad y toiledau ac maent yn adolygu'r gweithdrefnau'n barhaus er mwyn sicrhau y gall y plant gyrraedd y toiledau cyn gynted â phosibl pan fo angen. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt yn annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod llawer o'r plant yn gallu cael gafael ar amrywiaeth foddhaol o deganau a chyfarpar sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y dodrefn a'r cyfarpar yn addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant yn eu gofal. Er enghraifft, ceir bwrdd lefel isel sydd â chadeiriau'n sownd iddo y gellir ei symud yn hawdd i'r awyr agored pan fo angen. Gallant symud yn rhydd i'r awyr agored. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarpar a'r adnoddau sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored yn diwallu anghenion y plant nac yn bodloni eu diddordebau yn llawn. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn ceisio dringo'r dodrefn heb ffrâm ddringo yn yr awyr agored. Dan do, mae rhai o'r plant yn chwarae â doliau, ond nid oes ganddynt ardal chwarae rôl benodol lle y gallant fwynhau eu chwarae i'r eithaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn agored ac yn ddidwyll ac mae ganddynt weledigaeth ddatblygol ar gyfer y gwasanaeth. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben pwrpasol sy'n adlewyrchu'r lleoliad a ddarperir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r holl wybodaeth reoleiddiol am y plant gan gynnwys contractau, manylion personol, a chaniatadau yn ddiogel. Mae ganddynt amrywiaeth eang o bolisïau ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn drefnus iawn wrth adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ac i gyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.’

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal bob blwyddyn. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rhieni/gofalwyr ac yn eu rhoi ar waith. Maent wedi llunio adroddiad perthnasol ar ansawdd y gofal, sy'n ystyried yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a ble yr hoffent wella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Maent yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer aelodau o'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cyflogi staff profiadol a phroffesiynol i weithio yn y lleoliad. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant amrywiol, gan gynnwys yr holl hyfforddiant gorfodol. Gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio'r staff mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cymarebau staffio bob amser yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae rhai achlysuron pan fydd y staff yn gweithio ar eu capasiti mwyaf, sy'n effeithio ar ba mor effeithiol a diogel y gallant gyflawni rolau a chyfrifoldebau dyddiol. Cytunodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod angen cymorth ychwanegol yn ystod sesiynau penodol drwy gydol yr wythnos. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn dda. Maent yn sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy adborth dyddiol ar lafar a thrwy'r ap cyfathrebu. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i’r wybodaeth a’r cyngor a roddir er mwyn cefnogi a gwella’r lleoliad a diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plant. Maent wedi sefydlu cysylltiadau cadarnhaol â'r ysgol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Mae'r bartneriaeth sefydledig a chadarn hon yn helpu'r plant i bontio o'r lleoliad i'r ysgol. Gwnaethom siarad â'r rhieni ar ddiwrnod yr ymweliad a oedd yn hapus iawn â'r lleoliad ac yn dweud bod eu plant yn hapus iawn hefyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Sicrhau bod digon o staff ar gael i gyflawni'r holl rolau a chyfrifoldebau dyddiol perthnasol yn ddiogel ac yn effeithiol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 4 –Diwallu anghenion unigol | Cynyddu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth. |
| Safon 10 –Gofal Iechyd | Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau hylendid eu dilyn. |
| Safon 4 –Diwallu anghenion unigol | Sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y plant eu parchu bob amser. |
| Safon 4 –Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn unol ag anghenion a diddordebau'r plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/07/2024